


# Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Brilliant Dental Care gan Ruth Morris  
(Tonysguboriau), Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Cwm Taf Morgannwg

**Dyddiad yr arolygiad:** 14 Ebrill 2026

**Dyddiad cyhoeddi:** 15 Gorffennaf 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](http://www.agic.org.uk) neu drwy gysylltu â ni:

**Yn ysgrifenedig:**

Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

**Neu:**

Ffôn: 0300 062 8163  
E-bost: [agic@llyw.cymru](mailto:agic@llyw.cymru)  
Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

ISBN Digidol 978-1-80853-008-1

© Hawlfraint y Goron 2026



# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

## Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

### Rydym yn:

**Annibynnol** – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

**Gwrthrychol** – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

**Pendant** – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

**Cynhwysol** – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

**Cymesur** – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

## Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

## Ein Blaenoriaethau

**Rhoi Pobl yn Gyntaf** – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

**Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd** – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

**Buddsoddi yn Ein Pobl** – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

**Cymryd Camau sydd o Bwys** – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



# Cynnwys

|                                                                    |    |
|--------------------------------------------------------------------|----|
| 1. Yr hyn a wnaethom .....                                         | 5  |
| 2. Crynodeb o'r arolygiad .....                                    | 6  |
| 3. Yr hyn a nodwyd gennym.....                                     | 9  |
| Ansawdd Profiad y Claf .....                                       | 9  |
| Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .....                           | 12 |
| Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....                           | 16 |
| 4. Y camau nesaf.....                                              | 19 |
| Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad | 20 |
| Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....                        | 21 |
| Atodiad C – Cynllun gwella .....                                   | 22 |



# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Brilliant Dental Care gan Ruth Morris (Tonysguboriau), Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 14 Ebrill 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC ac adolygydd cymheiriaid clinigol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o ddeg holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd un gan aelod o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

## 2. Crynodeb o'r arolygiad

### Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Nodwyd gennym fod y staff yn y practis deintyddol yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w cleifion. Dywedodd bron pob un o'r unigolion a ymatebodd i holiadur AGIC fod y gwasanaeth yn 'dda iawn' ac roedd yr adborth yn cynnwys sylwadau cadarnhaol iawn.

Roedd yr adeilad yn lân yr olwg, mewn cyflwr da ac yn darparu amgylchedd dymunol i'r cleifion.

Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion mewn modd cwrtais, cyfeillgar a phroffesiynol.

Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth yn cael ei darparu i gleifion am y gwasanaeth a'r triniaethau a ddarperir, gan gynnwys sut i gael triniaeth arferol a thriniaeth frys

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Darparu gwybodaeth sy'n hybu iechyd cyffredinol ac iechyd y geg.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Amgylchedd dymunol mewn cyflwr da
- Roedd trefniadau ar waith i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion
- Roedd y gwasanaeth yn annog adborth gan gleifion, ac yn gweithredu arno.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn drefnus. Roedd y deintyddfeydd yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben. Roedd pob ardal yn ymddangos yn lân ac yn daclus ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd y staff yn dilyn gweithdrefnau clir i sicrhau bod offer deintyddol yn cael ei ddihalogi a'i sterileiddio. Roedd ystafell ar wahân yn cael ei defnyddio i ddihalogi, ac mae hyn yn arfer dda yn ein barn ni.

Roedd cofnodion y cleifion o safon uchel gyda gwybodaeth glinigol yn cael ei chofnodi'n dda.

Gwelsom fod mesurau priodol ar waith i sicrhau diogelwch y cleifion a'r staff.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Ffurfioli'r broses ar gyfer monitro atgyfeiriadau cleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr ardaloedd clinigol yn lân, yn cynnwys digon o gyfarpar ac yn addas at y diben
- Roedd trefniadau priodol ar waith i ymdrin ag argyfyngau meddygol.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd arweinyddiaeth dda yn Brilliant Dental Care gan Ruth Morris (Tonysguboriau), ynghyd â llinellau atebolrwydd clir. Gwelsom fod y prif ddeintydd a'r perchennog yn dangos ymrwymiad clir i ddarparu gofal o safon uchel, a'i bod yn cael ei chefnogi'n effeithiol gan reolwr y practis a rheolwr cydymffurfiaeth.

Roedd cofnodion y staff yn cael eu cadw'n dda iawn, a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf yn unol â gofynion rheoliadol. Gwelsom dystiolaeth hefyd o gyfarfodydd staff rheolaidd a phrosesau rheoli perfformiad.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiau a gweithdrefnau ar waith. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Cydymffurfiaeth dda â gofynion hyfforddiant y staff
- Roedd systemau ar waith i sicrhau bod polisiau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd
- Systemau a chofnodion cadarn ar gyfer recriwtio a chyflogi staff.

### 3. Yr hyn a nodwyd gennym

#### Ansawdd Profiad y Claf

##### Adborth gan gleifion

Rhoddodd y cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC adborth cadarnhaol ar y cyfan, gyda naw allan o ddeg ymatebydd yn nodi bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' ac un yn nodi ei fod yn 'dda'. Roedd pob ymatebydd yn fodlon ar y wybodaeth a roddwyd iddynt ac yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys yn eu triniaeth a'u gofal.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

*“Gofal rhagorol ers 30 mlynedd.”*

*“Mae'r staff yn rhoi sicrwydd ac yn hawdd mynd atynt. Yn barod i ddatrys unrhyw broblemau*

*o ran amseroedd neu ddyddiadau apwyntiadau.”*

*“Mae'r gofal a'r sylw a roddir i gleifion yn rhagorol.”*

#### Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

##### Hybu iechyd a gwybodaeth i gleifion

Gwelsom amrywiaeth o daflenni a phosteri yn ardal y dderbynfa, a oedd yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion am y gwasanaethau a ddarperir. Roedd taflenni am roi'r gorau i smygu ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gwnaethom sôn y gellid cynnig rhagor o wybodaeth hybu iechyd y geg, fel gwybodaeth am fwyta'n iach a lleihau faint o alcohol a yfir.

##### **Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth sy'n hybu iechyd y geg ac iechyd cyffredinol ar gael i'r cleifion.**

Roedd copïau o'r Datganiad o Ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion ar gael yn y practis ac ar wefan y practis.

Roedd arwyddion 'dim smygu' yn cael eu harddangos yn glir, a oedd yn dangos bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y staff wedi esbonio iechyd eu ceg yn glir a'u bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i gynnal iechyd y geg da.

##### Gofal urddasol a pharchus

Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod triniaethau ac nid oedd modd gweld i mewn drwy'r ffenestri allanol yn yr ardaloedd clinigol er mwyn hybu

preifatrwydd y cleifion. Gellid mynd â chleifion a oedd am gael trafodaeth breifat i swyddfa ar wahân neu ddeintyddfa wag.

Roedd prisiau triniaethau ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat ar gael yn glir i'r cleifion yn ardal y dderbynfa ac ar wefan y practis. Gwelwyd tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwr gyfredol hefyd.

Roedd naw egwyddor foesegol cod safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos ar bosteri yn yr ardal aros, yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd enwau'r staff clinigol a'u rhifau cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'u harddangos y tu mewn a'r tu allan i'r practis.

Roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC yn cytuno bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

## **Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn**

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 10 claf, a gadarnhaodd fod gwybodaeth adnabod a hanesion meddygol priodol yn cael eu cofnodi.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC a fynegodd farn fod y staff wedi rhoi digon o wybodaeth iddynt ddeall pa opsiynau triniaeth oedd ar gael, ynghyd â'u risgiau a'u manteision.

## **Amserol**

### **Gofal amserol**

Roedd oriau agor y practis wedi'u harddangos yn glir y tu allan i'r practis, yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis. Gwnaethom nodi anghysondeb bach lle roedd yr oriau a nodwyd ar y daflen wybodaeth i gleifion yn wahanol i'r rhai a oedd yn cael eu harddangos y tu allan i'r practis. Roedd hyn oherwydd bod y practis yn rhoi amser ychwanegol pan oedd staff ar gael yn y dderbynfa i ymdrin ag ymholiadau dros y ffôn. Aethpwyd i'r afael â hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad drwy ddiweddarau'r daflen wybodaeth i gleifion a'i gwneud yn gliriach.

Dywedodd y staff wrthym fod amser ar gyfer apwyntiadau brys wedi'i gynnwys fel rhan o'r amserlen ddyddiol a bod apwyntiadau brys yn cael eu blaenoriaethu, yn seiliedig ar symptomau ac anghenion clinigol cleifion.

Roedd gwybodaeth am sut i gael gofal y tu allan i oriau yn cael ei harddangos yn glir y tu mewn a'r tu allan i'r practis.

Roedd systemau effeithiol ar waith i staff yn y deintyddfeydd allu cyfathrebu â staff y dderbynfa. Dywedwyd wrthym y byddai cyfleuster negeseuon uniongyrchol yn cael eu defnyddio i roi gwybod am unrhyw achosion o oedi i driniaethau, ac y byddai staff y

dderbynfa yn cyfleu'r wybodaeth honno ar lafar i'r cleifion. Byddai'r cleifion yn cael cynnig yr opsiwn i aildrefnu eu hapwyntiad pe bai angen iddynt wneud hynny.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC ei bod naill ai'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt.

## **Teg**

### **Cyfathrebu ac iaith**

Roedd gwasanaethau cyfieithu dros y ffôn ar gael i'r staff pe bai eu hangen ar gyfer cleifion nad ydynt yn siarad Saesneg.

Roedd tystiolaeth o'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg yn y practis, gyda phosteri yn hyrwyddo'r iaith a chryn dipyn o wybodaeth i gleifion yn cael ei darparu'n ddwyieithog. Roedd gan rai aelodau o'r staff ddealltwriaeth gyfyngedig o'r Gymraeg. Dywedwyd wrthym y gellid galw ar aelod o staff sy'n siarad Cymraeg o bractis cangen gerllaw os oedd angen, a'i fod yn gwisgo bathodyn 'Iaith Gwaith' i ddangos ei fod yn siarad Cymraeg.

### **Hawliau a chydaddoldeb**

Roedd polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar waith yn y practis, a oedd yn cynnwys cyfeiriadau at ddeddfwriaeth berthnasol a nodweddion gwarchodedig. Roedd y polisi yn berthnasol i gleifion, staff, contractwyr, myfyrwyr a hyfforddeion. Gwelsom fod y polisi yn gynhwysfawr ac yn gyfredol.

Dywedodd y staff wrthym fod enwau a rhagenwau a ffefrir yn cael eu nodi yng nghofnodion y cleifion, er mwyn sicrhau bod cleifion trawsryweddol neu anneuaid yn cael eu trin â pharch.

Roedd y practis wedi'i leoli ar yr ail lawr ac roedd grisiau i'w gyrraedd, a oedd yn cyfyngu ar fynediad i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn neu'r rhai ag anawsterau symudedd. Roedd hyn wedi'i nodi'n glir i gleifion yn y daflen wybodaeth i gleifion. Dywedodd y staff wrthym y byddent hefyd yn rhoi gwybod ar lafar i unrhyw gleifion a fyddai'n gwneud ymholiadau ac y gallent gynnig eu gweld yn y chwaer bractis gerllaw, a oedd wedi'i lleoli'n llwyr ar y llawr gwaelod.

Roedd posteri yn gwahodd cleifion i ofyn am wybodaeth mewn fformatau ychwanegol, fel print bras. Roedd llechen electronig yn cael ei rhoi i gleifion gwblhau ffurflenni gweinyddol, a gellid gwneud y sgrin yn fwy i gleifion ag amhariad ar eu golwg. Fel arall, roedd cod ymateb cyflym (QR) yn cael ei ddarparu os byddai'n well gan gleifion ddefnyddio eu dyfais eu hunain. Roedd dolen sain ar gael i helpu cleifion ag anawsterau clywed.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

### Rheoli risg

Gwelsom fod y safle mewn cyflwr da ac nad oedd unrhyw beryglon amlwg. Roedd y practis yn lân yr olwg, yn daclus ac nid oedd unrhyw annibendod.

Gwelsom fod gan y practis bolisiau cyfredol i sicrhau bod y safle yn addas at y diben, a bod risgiau'n cael eu hasesu a'u rheoli'n briodol. Roedd hyn yn cynnwys polisi Argyfwng a Pharhad Busnes a pholisi lechyd a Diogelwch cynhwysfawr wedi'i ategu gan asesiadau risg gweithredol.

Roedd trefniadau priodol ar gyfer ymdrin â deunyddiau o dan y gweithdrefnau ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd (COSHH) a'u storio.

Gwelsom dystiolaeth bod profion cyfredol wedi cael eu cynnal ar offer cludadwy (PAT) ac offer nwy, a bod adroddiad cyfredol wedi'i gwblhau ar gyflwr y gosodiadau trydanol.

Gwnaethom edrych ar ddogfennau yn ymwneud â diogelwch tân a gwelsom fod asesiad risg tân priodol ar waith. Roedd cofnodion a oedd yn dangos bod y cyfarpar diogelwch tân wedi cael ei wirio a'i wasanaethu'n rheolaidd. Roedd arwyddion clir ar gyfer y llwybrau dianc a'r allanfeydd tân a gwelsom dystiolaeth bod ymarferion tân rheolaidd wedi cael eu cynnal. Roedd diffoddwyr tân wedi'u gosod ar y waliau, gyda labeli yn dangos eu bod wedi cael eu gwirio a'u gwasanaethu'n rheolaidd.

Roedd larymau mwg wedi'u gosod er mwyn rhoi rhybudd o dân, a byddai'r staff yn lledaenu'r neges ar lafar. Gwnaethom drafod rhinweddau gosod larwm mwg yn ystafell y cywasgydd, ac yn ystod yr arolygiad, cafwyd gafeael ar larwm mwg ychwanegol i'w osod ar unwaith.

Roedd cyfleusterau newid a loceri ar gyfer storio eitemau personol ar gael i'r staff.

Roedd y toiled rhywedd cymysg i gleifion yn lân yr olwg, ac roedd yn cynnwys cyfleusterau golchi a sychu dwylo addas ac uned gwaredu eitemau mislif.

### Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau bod arferion rheoli heintiau o safon dda ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys polisiau a gweithdrefnau priodol a threfniadau glanhau effeithiol.

Roedd ystafell ddynodedig yn y practis ar gyfer dihalogi a sterileiddio offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol lechyd Cymru WHTM 01-05. Roedd yr ystafell ddihalogi yn lân yr olwg, yn daclus ac nid oedd unrhyw annibendod. Gwelsom fod y gweithdrefnau ar gyfer prosesu, dihalogi a sterileiddio yn briodol ac wedi'u deall yn dda. Roedd gwiriadau priodol yn cael eu cynnal o'r cyfarpar ac yn cael eu cofnodi.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod y practis yn 'lân iawn' neu'n 'eithaf glân' a bod mesurau atal a rheoli heintiau amlwg ar waith.

Roedd gweithdrefnau priodol ar gyfer gwaredu gwastraff. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio mewn cwpwrdd dan glo ar y safle a'i gasglu'n uniongyrchol gan y contractwr gwastraff. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom nad oedd y clo ar y cwpwrdd wedi cael ei gloi'n iawn. Aethpwyd i'r afael â hyn ar unwaith ac yn ystod yr arolygiad, aeth y rheolwr cofrestredig ati i atgoffa'r staff y dylid bod yn ofalus wrth gloi'r cwpwrdd gwastraff.

## **Rheoli meddyginiaethau**

Gwnaethom adolygu'r trefniadau ar gyfer rheoli meddyginiaethau a gwelsom fod mesurau cadarn a diogel ar waith ar gyfer trin, storio a gwaredu meddyginiaethau.

Gwnaethom archwilio'r trefniadau a oedd ar waith a'r cyfarpar a oedd ar gael i ddelio ag argyfyngau meddygol. Roeddem o'r farn eu bod yn foddhaol ar y cyfan, bod y cyfarpar yn gyfredol a bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal. Gwnaethom sôn mai aspirin gwasgaradwy ddylai fod yn y pecyn, ac ymdriniwyd â hynny'n addas yn ystod yr arolygiad. Gwnaethom nodi hefyd fod cyfarpar diogelu personol fel menig, ffedogau a chyfarpar amddiffyn y llygaidd ar gael yn y deintyddfeydd, ond y dylai hefyd fod ar gael gyda'r cyfarpar brys. Aethpwyd i'r afael â hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom dystiolaeth bod y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar adfywio cardiopwlmonaidd (CPR), a bod dau aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant i fod yn swyddogion cymorth cyntaf.

## **Diogelu plant ac oedolion**

Roedd gan y practis bolisiau a gweithdrefnau manwl a chyfredol ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Roedd y polisi yn cynnwys adran ar gyfer cleifion nad oedd rhywun wedi dod â nhw i'w hapwyntiad (*'was not brought'*), ac roedd manylion cyswllt ar gyfer uwchgyfeirio materion a siartiau llif y gellid cyfeirio atynt yn gyflym ar gael yn glir i'r staff.

Y prif ddeintydd oedd yr arweinydd diogelu dynodedig ac roedd wedi cwblhau hyfforddiant priodol hyd at lefel 3. O edrych ar y cofnodion hyfforddiant, gwelwyd bod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant cyfredol ar ddiogelu oedolion a phlant.

## **Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol**

Gwnaethom nodi bod y cyfarpar clinigol yn y practis yn ddiogel, mewn cyflwr da ac yn addas at y diben. Gwelsom gofnodion gwasanaethu priodol ar gyfer cyfarpar. Fodd bynnag, wrth wirio'r deunyddiau deintyddol, gwelsom fod y dyddiad ar un eitem wedi mynd heibio. Cadarnhaodd gwiriadau pellach mai achos unigol oedd yr achos hwn.

Cafodd y staff wared ar yr eitem ar unwaith, ac yn ystod yr arolygiad, cafodd rhestr wirio ei datblygu a'i rhoi ar waith i leihau'r risg y byddai hyn yn digwydd eto.

Gwnaethom edrych ar ddogfennau yn ymwneud â defnyddio'r cyfarpar pelydr-X yn ddiogel, a gwelsom eu bod yn gynhwysfawr ac yn briodol. Gwelsom fod stocrestr o gyfarpar pelydr-X, cofnodion cynnal a chadw a rheolau lleol ar waith.

Roedd dyfais ar gyfer archwiliadau pelydr-X panoramig wedi'i lleoli tuag at gefn yr adeilad wrth ymyl y toiled. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn sicrhau bod y toiled yn wag cyn defnyddio'r uned pelydr-X. Gwnaethom awgrymu y dylid gosod arwyddion wrth y panel rheoli i atgoffa'r staff er mwyn lleihau'r risg o gysylltiad damweiniol; aethpwyd i'r afael â hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Gwnaethom edrych ar gofnodion hyfforddiant y staff a gwelsom fod aelodau perthnasol o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol).

## Effeithiol

### Gofal effeithiol

Gwelsom fod trefniadau diogel ar waith yn y practis ar gyfer derbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin.

Drwy drafod â'r staff, cawsom sicrwydd y byddent yn gofyn am gyngor ac arweiniad proffesiynol ac yn eu dilyn lle bo angen.

Roedd y practis yn defnyddio rhestrau gwirio'r Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol er mwyn lleihau'r risg o dynnu'r dant anghywir.

### Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n electronig ac yn unol â pholisi Rheoli Cofnodion priodol.

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion deg claf a gwelsom eu bod yn cael eu cynnal yn dda. Gwelsom dystiolaeth bod gwybodaeth glinigol yn cael ei chofnodi mewn modd trylwyr, cynhwysfawr a chyson. Roedd hyn yn cynnwys siartiau sylfaenol, archwiliadau periodontol sylfaenol, archwiliadau meinweoedd meddal ac archwiliadau y tu allan a'r tu mewn i'r geg, a phrofion sgrinio am ganser.

## Effeithlon

### Effeithlon

Gwelsom fod sesiynau clinigol yn cael eu defnyddio'n effeithlon a bod apwyntiadau

wedi'u canslo yn cael eu cynnig i gleifion eraill. Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod cleifion roedd angen triniaeth frys arnynt yn deall sut i gael gafael ar wasanaethau y tu allan i oriau.

Cadarnhaodd y staff fod atgyfeiriadau cleifion yn cael eu monitro drwy wiriadau wythnosol ac y byddent yn cael eu holrhain pe byddai angen. Nid oedd proses ysgrifenedig ar waith ar gyfer monitro ac olrhain atgyfeiriadau.

**Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig roi proses ysgrifenedig ffurfiol ar waith ar gyfer monitro ac olrhain atgyfeiriadau cleifion.**

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

### Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd strwythurau rheoli clir ar waith, ac roedd y practis yn gweithredu o dan gyfarwyddyd y perchennog (y prif ddeintydd), gyda chymorth rheolwr y practis a rheolwr cydymffurfiaeth. Gwelsom ymrwymiad clir i ddarparu gwasanaeth o safon uchel a dull gweithredu cadarnhaol ar gyfer gwneud gwelliannau. Roedd safon uchel y cofnodion a oedd yn cael eu cadw a'r ddogfennaeth yn dangos rheolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol.

Gwelsom dystiolaeth fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod cofnodion yn cael eu dosbarthu er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Roedd y nyrsys deintyddol hefyd yn cynnal cyfarfod 'sgrym' bob dydd i drafod unrhyw faterion. Dywedwyd wrthym fod gwasanaeth negeseuon electronig yn cael ei ddefnyddio i roi gwybodaeth a diweddariadau i amrywiaeth o grwpiau staff ac i ddarparu ar gyfer patrymau gweithio gwahanol.

Roedd y staff yn cael arfarniadau rheolaidd a chawsom wybod am enghreifftiau lle roedd y staff wedi nodi cyfleoedd hyfforddiant ac wedi cael cymorth i ymgymryd â'r hyfforddiant hwnnw. Dywedwyd wrthym fod y practis wedi defnyddio adnodd matrices aeddfedrwydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) er mwyn helpu i nodi anghenion hyfforddiant.

Roedd amrywiaeth gynhwysfawr o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ac roedd y staff yn cael gwybod am unrhyw newidiadau.

## Y Gweithlu

### Gweithlu medrus a galluog

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer cyflogi staff. Gwelsom bolisiâu a gweithdrefnau, a oedd yn rhoi manylion am y broses recriwtio a'r gwiriadau a gynhelir ar ddarpar gyflogeion. Roedd gwiriadau yn cynnwys manylion adnabod, yr hawl i weithio, cymwysterau proffesiynol a brechiadau.

Er mwyn sicrhau parhad gofal, gallai'r practis ddefnyddio staff o'r chwaer bractis, ond roedd hefyd yn defnyddio staff asiantaeth. Dywedodd y staff wrthym fod eu contractau gyda'r asiantaeth yn sicrhau bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal i gadarnhau bod staff yn addas i weithio, ac y byddent yn gofyn i gael gweld tystysgrifau perthnasol pe byddai angen profiad arbenigol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion 11 aelod o'r staff a gwelsom dystiolaeth bod y

staff wedi'u cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, bod ganddynt yswiriant indemniad proffesiynol a'u bod wedi'u brechu'n briodol rhag Hepatitis B. Gwelsom hefyd fod gwiriadau priodol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi'u cynnal. Roedd y rheolwr cydymffurfiaeth yn monitro cydymffurfiaeth y staff â gofynion hyfforddiant gorfodol yn effeithiol.

## **Diwylliant**

### **Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu**

Roedd y practis yn gwahodd adborth gan gleifion ar lafar, ar-lein, drwy'r cyfryngau cymdeithasol neu drwy ddefnyddio blwch awgrymiadau yn yr ystafell aros. Dywedodd y rheolwr cydymffurfiaeth wrthym fod adborth yn cael ei adolygu'n rheolaidd, gan gynnwys drwy archwiliad o adborth gan gleifion a oedd yn arwain at gynllun gweithredu.

Nid oedd unrhyw ddull ar waith i nodi'r camau a gymerwyd o ganlyniad i adborth, fel poster 'dywedoch chi, gwnaethom ni'. Gwnaethom awgrymu efallai yr hoffai'r practis ystyried sut i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf â chleifion os oedd wedi gweithredu mewn ymateb i'w hadborth.

Roedd gweithdrefn gwyno gynhwysfawr ar waith, a oedd ar gael yn hwylus i gleifion ar y safle ac ar wefan y practis. Roedd y weithdrefn yn cynnwys amserlenni priodol ar gyfer ymateb a sut i uwchgyfeirio'r mater pe bai angen, gyda manylion cyswllt ar gyfer cyrff allanol perthnasol.

Roedd gwybodaeth am weithdrefn 'Gweithio i Wella' y GIG ar gael yn yr ystafell aros. Gwnaethom sôn fod y weithdrefn hon wedi cael ei diweddarau o fewn y pythefnos diwethaf i weithdrefn newydd o'r enw 'Gwrando ar Bobl'. Aethpwyd i'r afael â hyn yn ystod yr arolygiad drwy argraffu gwybodaeth gyfredol a'i rhoi yn yr ystafell aros.

Dywedodd y staff wrthym fod cwynion llafar ac ysgrifenedig yn cael eu cofnodi'n ganolog, gyda 'chofnod digwyddiadau' ar gyfer pob achos i ddangos cynnydd gyda'r amrywiol gamau. Byddai rheolwr y practis a'r rheolwr cydymffurfiaeth yn adolygu'r cofnod yn rheolaidd i nodi unrhyw themâu neu faterion rheolaidd.

Roedd polisi ar waith yn y practis ar gyfer y Ddyletswydd Gonestrwydd, gan gynnwys gofynion hysbysu.

## **Gwybodaeth**

### **Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol**

Roedd polisiâu, gweithdrefnau a systemau priodol ar waith yn y practis i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei dal a'i rhannu'n ddiogel ac yn gyfrinachol.

## **Dysgu, gwella ac ymchwil**

## **Gweithgareddau gwella ansawdd**

Gwelsom dystiolaeth fod amrywiaeth dda o archwiliadau clinigol ac anghlinigol yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd y rhain yn cynnwys iechyd a diogelwch, presgripsiynu gwrthficrobaidd, gwastraff gofal iechyd, mynediad i bobl anabl, rhoi'r gorau i smygu a chadw cofnodion.

Yn benodol, gwelsom fod dogfen 'datganiad blynyddol' wedi cael ei pharatoi, y gellid ei rhoi i AGIC ar gais i ddangos sut y caiff ansawdd y gwasanaeth ei fonitro a'i asesu.

## **Dull systemau cyfan**

### **Gweithio mewn partneriaeth a datblygu**

Disgrifiodd y staff ddulliau priodol o ymgysylltu â phartneriaid, gan gynnwys y defnydd o systemau electronig fel NHS Compass. Roedd y practis wedi diweddarau gweithdrefnau a systemau yn unol â chontract deintyddol diwygiedig y GIG a ddaeth i rym yn ddiweddar ar 01 Ebrill 2026.

## 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd                                                                                                                                                                                        | Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion                                                                                   | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder                                                 | Sut cafodd y pryder ei ddatrys                                                                                                                                       |
|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Wrth wirio'r deunyddiau deintyddol, gwelsom fod y dyddiad ar un eitem wedi mynd heibio. Cadarnhaodd gwiriadau pellach mai achos unigol oedd yr achos hwn.                                                             | Gallai'r posibilrwydd y byddai deunyddiau â'r dyddiad wedi mynd heibio gael eu defnyddio beri risg i gleifion.                            | Codwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig, rheolwr y practis a'r rheolwr cydymffurfiaeth. | Cafodd y staff wared ar yr eitem ar unwaith, ac yn ystod yr arolygiad, cafodd rhestr wirio ei rhoi ar waith i leihau'r risg y byddai hyn yn digwydd eto.             |
| Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio mewn cwpwrdd dan glo ar y safle a'i gasglu'n uniongyrchol gan y contractwr gwastraff. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom nad oedd y clo ar y cwpwrdd wedi cael ei gloi'n iawn. | Risg uwch y bydd unigolion heb awdurdod yn dod i gysylltiad â gwastraff clinigol.                                                         | Codwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig, rheolwr y practis a'r rheolwr cydymffurfiaeth. | Aethpwyd i'r afael â hyn ar unwaith ac yn ystod yr arolygiad, aeth y Rheolwr Cofrestredig ati i atgoffa'r staff y dylid bod yn ofalus wrth gloi'r cwpwrdd gwastraff. |
| Gwnaethom sôn mai aspirin gwasgaradwy ddylai fod yn y pecyn argyfyngau meddygol. Gwnaethom nodi hefyd fod cyfarpar diogelu personol ar gael yn y deintyddfeydd, ond y dylid ei gadw hefyd gyda'r cyfarpar brys.       | Mae sicrhau bod y cyfarpar ar gyfer rheoli argyfyngau meddygol yn cydymffurfio â'r canllawiau yn lleihau'r risg i gleifion mewn argyfwng. | Codwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig, rheolwr y practis a'r rheolwr cydymffurfiaeth. | Aethpwyd i'r afael â hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.                                                                                                           |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Brilliant Dental Care gan Ruth Morris (Tonysguboriau)

Dyddiad yr arolygiad: 14 Ebrill 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella |                | Safon / Rheoliad                                                                                              | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|----------------------------|----------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-----------------------------------|------------------|----------|
| 1.                         | Ddim yn gymwys |                                                                                                               |                                   |                  |          |
| Canfyddiadau:              |                | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad. |                                   |                  |          |

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Brilliant Dental Care gan Ruth Morris (Tonysguboriau)

#### Dyddiad yr arolygiad: 14 Ebrill 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater |                                                                                                                                                                                                | Yr hyn sydd angen ei wella                                                                                                                      | Safon / Rheoliad                                           | Camau gweithredu gan y gwasanaeth                                                                                       | Swyddog cyfrifol              | Amserlen       |
|-----------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|-------------------------------|----------------|
| 1.                    | Gellid rhoi rhagor o wybodaeth i hybu iechyd y cleifion a chefnogi gwasanaethau atal.                                                                                                          | Dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod gwybodaeth sy'n hybu iechyd y geg ac iechyd cyffredinol ar gael i'r cleifion.                          | Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal - Diogel                    | Daethpwyd o hyd i wybodaeth a thafleddi ac maent ar gael i bawb                                                         | Hassina Taak/Roxanne Williams | Wedi'i gwblhau |
| 2.                    | Roedd atgyfeiriadau cleifion yn cael eu monitro drwy wiriadau wythnosol ac yn cael eu holrhain os oedd angen. Nid oedd proses ysgrifenedig ar waith ar gyfer monitro ac olrhain atgyfeiriadau. | Rydym yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig roi proses ysgrifenedig ffurfiol ar waith ar gyfer monitro ac olrhain atgyfeiriadau cleifion. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Rheoliad 13 | Mae proses ffurfiol wedi cael ei chreu a'i dogfennu fel rhan o systemau'r practis. Rhannwyd hyn â phob aelod o'r staff. | Hassina Taak/Roxanne Williams | Wedi'i gwblhau |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (priflythrennau): Daniel Humphrey**

**Swydd: Rheolwr Busnes**

**Dyddiad: 3 Mehefin 2026**